

Cyngor Cymuned Cerrig-y-Drudion
Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar y 12fed Ionawr 2016

Presennol -Einion Edwards Cadeirydd, Menai Hughes , Guto G Jones, Hefin Edwards, Prys Ellis, John D Jones, Caerwyn Roberts Clerc.

Ymddiheuriadau – Ieuan Jones, Helen Ellis, Alun Jones, Cyng Peter Lewis.

Cofnodion – Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 4ydd Dachwedd 2015
Datgan diddordeb. Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb.

Materion yn Codi :

[1] Yr Heddlu

Nid oedd yr heddlu'n bresennol. Cyfeiriodd y clerch at yr adroddiad a dderbyniwyd.

[a] Bod corff wedi ei ddarganfod yn y goedwig ym Mhentrellencymer.

[b] Bod lladron wedi ceisio dwyn beic modur o ffermdy yn y gymuned.

[c] Bod difrod wedi ei wneud i giât yr ysgol sydd yn arwain i'r cae tu cefn i'r ysgol, hefyd bod moduron wedi ei gweld ar y cae.

[d] Yr heddlu wedi derbyn cwyn bod yfed diod feddwol gan rai dan oed yng Ngwesty'r Saracens, ond nad oedd yn amlwg, a bod popeth yn iawn pan i'r heddlu alw.

[e] Yr heddlu wedi derbyn gair gan y Cyng Peter Lewis bod gyrru moduron yn wrthgymdeithasol yn amlwg yn y gymuned.

[1.1] Llwybr Cyhoeddus Rhif 51 [Llwybr Bach]

Cyfeiriodd y clerch at ohebiaeth gan Tom Gravett rheolwr Llwybrau Cyhoeddus yn amlinellu nad oedd y llwybr yn flaenoriaeth ar hyn o bryd. Y clerch i anfon yn ol yn datgan siom y Cyngor.

[1.2] Trefnu ar gyfer Argyfwng

Eglurodd y clerch ei fod gyda'r Cyng Peter Lewis wedi cwrdd ag Eleri Salisbury [Swyddog Argyfwng Cyngor BS Conwy & Dinbych] a'i bod yn paratoi cynllun ar gyfer y gymuned.

[1.3] Gwasanaeth Sgip

Penderfynwyd trefnu sgip ar gyfer y Gwanwyn.

[1.4] Offerynnau Cae Chwarae Ty'n y Felin Glasfryn

Eglurodd y clerch iddo dderbyn neges gan y Cyng Peter Lewis bod cais wedi ei wneud iddo am offerynnau ychwanegol. Y clerch i gysylltu gyda'r Cyngor Sir ynglŷn â'r mater.

[1.5] Arwyddion Cwn/ Cae Llwyd

Y clerch i gysylltu gyda'r Cyngor Sir i geisio arwyddion newydd a gofyn am ei gosod yn uwch ar y polyn.

[1.6] Hwylusydd Tai Gwledig

Cyfeiriodd y clerch at ohebiaeth gan Buddug Williams Uwch Swyddog Tai Gwledig bod Grŵp Cynefin yn parhau i ystyried gwahanol fodelau ar gyfer cadw'r siop yn agored a.y.b.

[1.7] Traciau Beics

Dywedodd y clerch iddo dderbyn neges gan y Cyng Peter Lewis bod mapiau o draciau beics ar gael ar y we

<http://www.hiraethog.org.uk/things-to-do-hiraethog-p319351>

[1.8] Peiriant Arian Parod

Deallwyd bod trefniadau i osod peiriant yn ymyl Gwesty'r Saracens ar y 9fed Chwefror 2016.

[1.9] Diffibrilydd

Penderfynwyd cyfrannu £200.00 tuag at y diffibrilydd.

Y brif agenda

[2] CAB Cylch Conwy

Croesawyd Ms Gwyneth Millington Prif Weithredwraig CAB Cylch Conwy i'r cyfarfod, a chafwyd amlinelliad o waith y Cylch ac esboniad o'r gwasanaeth sydd ar gael. Nodwyd bod y gwasanaeth wedi cychwyn yn y llyfrgell ers yr 11eg Ionawr a bydd yn parhau'n fisol.

Penderfynwyd cyfrannu £200.00 tuag at y gwasanaeth.

[2.1] Cattle Grid Ffordd Brenig

Nodwyd ateb gan Gyngor Sir Ddinbych bod trefniadau ar y gweill i drwsio'r cattle grid mor fuan â phosib ac i osod grid newydd yn y tymor hir. Y clerch i geisio rheswm pam nad oedd yn bosib cael gwared a'r grid yn gyfan gwbl.

[2.2] Presept

Gan fod angen parhau i gefnogi'r gwasanaeth llyfrgell yn ariannol, penderfynwyd gosod presept o £8000.00 am y flwyddyn ariannol nesaf.

[2.3] Elusen Addysgol Cerrig-y-Drudion

Penderfynwyd cyfrannu £300.00

[2.4] Dwr Cymru/ Byngalo'r Alwen

Deallwyd bod lluniau a.y.b. o'r gronfa ddwr pan adeiladwyd yn 1914 - 1920 yn cael ei symud o'r bungalow i leoliad arall. Y clerch i anfon gair at y Bwrdd Dwr bod y Cyngor yn awyddus i gadw'r lluniau o fewn y gymuned.

[2.5] Nodwyd y wybodaeth ganlynol

[a] Llywodraeth Cymru – Adolygiad o uno Awdurdodau Lleol a gosod fframwaith newydd- 4ydd Chwefror, Venue Cymru Llandudno 10.30 -1.30

[b] Adolygiad o ddiogelwch Cefnffyrdd yng Nghymru ar gael

<http://www.traffic.walescom/Trunkroadsafetyreview.aspx?lang=cy-GB>

Cadeirydd_____